

CYFARFOD Y CYNGOR a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo, ar ddydd Mercher 17eg Mawrth 2021 gan gychwyn am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Mrs E. M. Chard (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, A. R. James, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, T. Thomas a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

Miss H. J. Windus – Dirprwy Clerc y Dref

Mr T. Booty – CSDd, Swyddog Arweiniol ar gyfer Rheoli Asedau Strategol

Mr M. Dixon – CSDd, Rheolwr Datblygu Tai ar gyfer Cyllid a Gwasanaethau Eiddo

62. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr B. Ball a Ms J. Hughes.

63. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

64. CYFLWYNIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH

Cyn croesawu Mr Tom Booty i'r cyfarfod, adroddodd Clerc y Dref bod y Cyngor Tref yn cefnogi'n llawn y fenter Dechrau'n Deg ac yn deall y dymuniad iddynt gael eu lleoli yng ngorllewin y Rhyl, y prif dalgylch. Roedd Mr Booty yn bresennol yn y cyfarfod i drafod cynnig Cyngor Sir Ddinbych o swyddfa dros dro i'r Cyngor Tref adael Canolfan Gymunedol Wellington.

Dywedodd Mr Booty mai'r cynnig oedd tair swyddfa yn Nhŷ Russell ar Ffordd Churton nes byddai 26 Ffordd Wellington yn barod i'r cyngor symud iddo.

Gallai'r Cyngor Tref ddefnyddio siambr y cyngor ar gyfer ei gyfarfodydd ffurfiol a rhannu cegin gyda defnyddwyr eraill yr adeilad.

Byddai'r Cyngor Sir hefyd yn cynorthwyo'r Cyngor Tref gyda'r gwaith o symud.

Mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau gan yr aelodau, dywedodd Mr Booty:

- Y gobeithid y byddai 26 Ffordd Wellington yn barod i'r Cyngor Tref symud iddo ar ddiwedd mis Awst 2022.
- Os oedd y Cyngor Tref yn penderfynu bod Tŷ Russell yn gynnig addas dros dro, yna byddai'n gweld os oedd ystafell TG bresennol y Cyngor Tref yn ffitio yn y lle a chael ei ymgorffori yn llwddiannus (roedd yn amau y gallai gyd-fynd

â system TG y Cyngor Sir gan fod cyfuniad o systemau yn gweithio'n dda ar hyn o bryd yn eu swyddfa yng Nghaledfryn yn Ninbych).

- Y byddai arwyddion yn cael eu rhoi ar y safle i wneud presenoldeb y Cyngor Tref yn glir.
- Er nad oedd derbynfa nawr yn Nhŷ Russell, ni fyddai polisi 'drws agored' i ymwelwyr y Cyngor Tref yn cael ei beryglu.
- Nid oedd darpariaeth barcio benodol ar gyfer staff ac ymwelwyr y Cyngor Tref ond roedd lle ar gael fel rheol ar Brighton Road.
- Tŷ Russell oedd yr unig adeilad a ystyriwyd yn addas ar gyfer y Cyngor Tref.
- Gellid cynnal cyfarfodydd gyda'r nos a diogelu'r adeilad wedyn.

Cyn gadael y cyfarfodm gwahoddodd Mr Booty yr aeloidau i'w ebostio gydag unrhyw gwestiynau pellach.

Diolchwyd i Mr Booty am fynychu.

65. SESIWN AGORED

Datganodd y Maer bod y cyfarfod, o hyn allan, yn cael ei gynnal fel sesiwn agored.

66. SWYDD WAG CYNGHORYDD CYMUNED – WARD BRYNHEDDYD

Adroddodd Clerc y Dref bod trigolion wedi gofyn am etholiad i lenwi swydd wag ar ward Brynheddyd, ac y byddai'n cael ei chynnal ar yr un diwrnod ag etholiadau'r Senedd, 6ed Mai 2021.

Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau oedd 8fed Ebrill am 4.00pm.

67. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 17eg Chwefror 2021 - Rhifau Cofnod 52-61

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 17eg Chwefror 2021 - Rhifau Cofnod 24-26

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

68. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Maer at gyfweiliad roedd wedi ei wneud gyda Sound Radio i hyrwyddo cyhoeddiad 'Rhodio'r Rhyl' y Cyngor Tref, yr oedd yn teimlo iddo fynd yn dda ac roedd wedi ei fwynhau.

69. ADRODDIAD TALIADAU (ATODLEN A) AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2020/21

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manhylu'r atodlen o daliadau i'w gwneud a'r diweddariad i'r rhestr o gyflenwyr cymeradwy (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i'w cymeradwyo.

Cyflenwr a Disgrifiad	Swm £	Amllder
Cyflogau net staff Cyngor Tref y Rhyl	7,700	Misol
Didyniadau cyflogau CThEM	3,100	Misol
Cynllun Pensiwn Clwyd Cyngor Sir y Fflint	4,500	Misol
Cyngor Sir Ddinbych – Y Dreth Gynvgor (10 mis)	750.00	Misol
Taliadau Banc HSBC	20.00	Misol
Ffonau BT – cyffredinol	1,110	Chwarterol
Ffonau BT – rhyngrwyd	150.00	Chwarterol
Shire Leasing – System ffôn Avaya	337.00	Chwarterol
Gunsmoke Communications – CC a Digwyddiadau	1,600	Misol
Cyngor ar Fudd-daliadau – Swyddog Apêl	917.00	Misol
Cyngor ar Bopeth – Swyddog Tlodi Tanwydd	2,000	Chwarterol
Cyngor Sir Ddinbych – benthyciad SC2	32,622	3 y flwyddyn
Cyngor Sir Ddinbych – partneriaeth TCC	15,000	Blynyddol

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r atodlen (Atodiad A) a'r rhestr o gyflenwyr cymeradwy wedi ei diweddarau (Atodiad B).

70. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau an-rheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'r rhestr o gyflwynwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r canlynol i'w talu a'i lofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.

Taliadau Atodiad B ar gyfer cymeradwyaeth (10fed Chwefror a 10fed Mawrth 2021)

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Swm £	Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau
1122	Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth	35.00	Ffi Flynyddol 2921

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Swm £	Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau
1123	Cyngor Sir Ddinbych	3,823.00	Swyddfeydd Dinesig Ffordd Wellington – taliadau gwasanaeth Chwarter 4
1124	Sioned Graham-Cameron	196.37	Cyfieithu
1125	Swyddfa'r Post	36.18	Postio – papurau'r Cyngor 17/2/21
1126	Cyngor Sir Ddinbych	1,000.00	Cyfraniad adnewyddu camerau Cyfnod 2 TCC
1132	Cyngor Sir Ddinbych	100,000.00	Taliad ychwanegol benthyciad SC2
1133	JDH Business Services Ltd	365.40	Archwiliad Interim 20/21 – ffi
	Cyfanswm taliadau	£105,455.95	

Taliad Brys – **Taleb Rhif 1125** – talu am bostio gan ddefnyddio cerdyn credyd y Cyngor Tref, gan fod y peiriant ffrancio yn ddiffygiol.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r atodlen, a byddai'n cael ei llofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.

71. **ADRODDIAD INERIM ARCHWILIAD MEWNOL 2021**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid ac adroddiad yr Archwiliwr Mewnol (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) a chyfeiriodd at bedwar mater a godwyd gan yr Archwiliwr Mewnol, fel a ganlyn:

Mater un – cwblhau Rhestr Wirio Diogelwch Seibr.

Mater dau – cywiro camgymeriadau gweinyddol mewn dwy set o gofnodion (gweithredwyd yng nghyfarfod mis Chwefror y Cyngor).

Mater tri – diweddarau Cofrestr Gontractau'r Cyngor Tref.

Mater pedwar – gweithredu gwiriadau ar rifau TAW cyflenwyr mawr cyn gwneud unrhyw gontractau.

Dywedodd aelod ei fod wedi derbyn papur Cyngor Sir Ddinbych yn ddiweddar ar ddiogelwch seibr a'i fod yn hapus i rannu hyn gyda Chlerc y Dref os byddai o gymorth?

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, cydnabod y materiom a'u cyfeirio at yr *Is-bwyllgor Asesu Risg i'w hystyried*.

72. **EITEM YCHWANEGOL: PENODI ARCHWILWYR MEWNOL AC ALLANOL**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddsbarthwyd ar wahân i'r rhaglen) ar benodi Archwilwyr Mewnol ac Allanol, JDH Business Services (Mewnol) a Swyddfa Archwilio Cymru (Allanol) ac atgoffodd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau personol sydd ganddynt gyda'r naill neu'r llall.

PENDERFYNWYD cydnabod pendodiadau JDH Business Services a Swyddfa Archwilio Cymru.

[Gadawodd y Cynghorydd Mrs J. Chamberlain-Jones y cyfarfod i ddelio gyda mater preifat]

73. CYFARFOD ANFFURFIOL Y CYNGOR

Gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau os oeddynt yn teimlo y byddai'n fuddiol cynnal cyfarfod anffurfiol i benderfynu ar y penodiadau angenrheidiol ar gyfer 2021/22, neu a oeddynt yn fodlon cario ymlaen gyda'r penodiadau i'r flwyddyn ddinesig nesaf?

PENDERFYNWYD cario pob penodiad ymlaen ar gyfer 2021/22.

74. CYNRYCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL: CYNGOR COLEG Y RHYL

Dyweddodd Clerc y Dref bod cynrychiolydd y Cyngor Tref ar gyngor y coleg, y Cynghorydd Mrs J. Chamberlain-Jones (absennol) yn gofyn am gefnogaeth yr aelodau i wahodd y coleg i gyfarfod o'r Cyngor Tref yn y dyfodol i roi cyflwyniad ar ddatblygu'r coleg.

PENDERFYNWYD bod Clerc y Dref yn gwahodd y coleg i fynychu cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol.

75. EITEM GAN AELOD: LLYTHYR LLONGYFARCH I GYNGOR TREF RHUDDLAN

Gofynnodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE am gefnogaeth yr aelodau i anfon llythyr i Gyngor Tref Rhuddlan i'w llongyfarch, ac i'r Cynghorydd Ann Davies yn benodol, ar eu rhan yn sicrhau archwiliad archaeolegol ar safre yn Rhuddlan.

PENDERFYNWYD bod Clerc y Dref yn ysgrifennu at Gyngor Tref Rhuddlan yn unol â hynny.

76. EITEM ER GWYBODAETH: PANEL CYDNABYDDIAETH ARIANNOL ANNIBYNNOL CYMRU – ADRODDIAD BLYNYDDOL

Cyfeiriodd y Maer at y ddogfen (llythyr ategol a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a dywedodd nad oedd newidiadau i'w cyflwyno i'r trefniadau presennol, ond y byddai'r Panel yn ymgymryd ag adolygiad o'r sector Cyngorau Cymuned yn 2021/22.

PENDERFYNWYD cydnabod yr wybodaeth.

77. EITEM ER GWYBODAETH: FANDALIAETH YNG NGERDDI COFFA'R RHYL

Adroddodd Clerc y Dref am y graffiti yn ddiweddar ar y gofeb rhyfel a oedd wedi ei lanhau'n gyflym gan swyddogion Cyngor Sir Ddinbych, ac roedd yn diolch iddynt am wneud hynny.

Oherwydd natur y graffiti, roedd yr heddlu wedi ei gyfrif fel trais casineb ac roeddynt wedi restio rhywun.

Dyweddodd Clerc y Dref y byddai'r Cyngor Tref, efallai, yn derbyn costau am lanhau'r graffiti ac y byddai'n eu hysbysu maes o law.

PENDERFYNWYD cydnabod yr wybodaeth.

78. EITEM ER GWYBODAETH: DIFROD I SAFLE BWS

Adroddodd Clerc y Dref bod difrod wedi ei wneud i safle bws y Cyngor Tref ar Ffordd yr Arfordir ar ôl iddo gael ei daro gan lori ddsbarthu ar 23ain Chwefror. Methodd gyrrwr y lori ag adrodd am y mater a gyrodd ymaith.

Mae'r heddlu yn ymchwilio i'r digwyddiad.

Mae swyddogion Cyngor Sir Ddinbych wedi trefnu i'r safle gael ei wneud yn ddiogel tra penderfynir ar gostau ei adnewyddu, a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r aelodau unwaith y byddant wedi eu derbyn.

PENDERFYNWYD cydnabod yr wybodaeth.

79. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

80. CYNNIG I ADLEOLI'R CYNGOR TREF DROS DRO

Ymhellach i eitem rhif 3 ar y rhaglen, cyfeiriodd Clerc y Dref at gyfarfod yr Is-bwyllgor Asesu Risg a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2021 ar ôl ymweliad â Thŷ Russell gan y Cyngorwyr A. R. James a P. Prendergast ac yntau ar 11eg Mawrth 2021.

Ailadroddodd yr aelodau eu bod yn teimlo bod adleoli menter Dechrau'n Deg i Orllewin y Rhyl yn syniad da wrth iddynt drafod manteision ac anfanteision y symud dros dro i'r Cyngor Tref.

Ar ôl trafodaeth helaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cynnig oherwydd:

- (i) *roedd y symudiad yn cryfhau ymhellach y camddealltwriaeth cyffredin bod y Cyngor Tref a'r Cyngor Sir yr un peth i drigolion y Rhyl. Rhywbeth y mae'r cyngorwyr tref yn ceisio ei esbonio o hyd. Byddai'r symudiad yn cyfrannu at gollu hunaniaeth y Cyngor Tref.*
- (ii) *nid yw'r swyddfeydd yn ddigon mawr ar gyfer y staff a'r holl offer a TG.*
- (iii) *anhwylustod ychwanegol symud ddwywaith a chostau cysylltiedig.*
- (iv) *nid oes lle parcio penodol ar gyfer staff ac ymwelwyr mewn adeilad lle mae parcio yn broblem ddyddiol eisoes i ddefnyddwyr y swyddfa a thrigolion sy'n byw yn y strydoedd o gwmpas.*

81. ARGYMHELLION Y PWYLLGOR GWEITHREDU STRATEGOL

Cyfeiriodd y Maer at gofnodion cyfrinachol (a ddosbarthwyd ar wahân i'r rhaglen) y cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 8fed Mawrth 2021, yn cynnwys argymhellion i barhau i rannol ariannu swydd Swyddog Arbed Ynni Cyngor ar Bopeth ac ariannu swydd Swyddog Apelio'r Siop Cyngor ar Fudd-daliadau; cadarnhau taliadau i brosiect Homestart a Rowndiau Terfynol Dramâu Un Act Prydain yn amodol ar y ffaith y bydd yn gallu cael ei gynnal yn ddiweddarach leni.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r taliadau.

82. ARGYMHELLION YR IS-BWYLLGOR ASESU RISG

Cyfeiriodd Clerc y Dref at gofnodion cyfarfod yr is-bwyllgor a gynhaliwyd ar 9fed Mawrth 2021 (a ddosbarthwyd ar wahân i'r rhaglen) yn cynnwys argymhellion i'r Cyngor eu cymeradwyo, a'r cynlluniau diwygiedig ar gyfer 26 Ffordd Wellington (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i'r aelodau eu hystyried.

Croesawyd Mr Mark Dixon o Gyngor Sir Ddinbych i'r cyfarfod i siarad gyda'r aelodau am y cynlluniau diwygiedig.

Esboniodd Mr Dixon bod y cynnig i adeiladu yng nghefn yr adeilad i wneud lle i'r lifft a'r toiledau yn rhy ddrud, felly roedd y pensaer wedi mynd yn ôl i ail-ystyried ac roedd nawr yn cyflwyno cynlluniau newydd i wneud gwell defnydd o'r lle.

Y ddau brif fater o bryder / newid oedd bod lifft bach wedi ei ymgorffori yng nghanol yr adeilad a byddai'r ystafell gyfarfod / siambr y cyngor nawr ar y llawr gwaelod, gyda gwell mynediad a mwy o le.

Atebodd Mr Dixon gwestiynau gan yr aelodau ac yna diolchwyd iddo am fynychu a gadawodd y cyfarfod.

PENDERFYNWYD derbyn y cynlluniau diwygiedig fel cynnig gwell a fyddai'n dod o fewn y gyllideb.

83. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:

Dyddiad: